# TELERAU AC AMODAU FY MIL DŴR CYMRU

**DRWY GOFRESTRU AR GYFER GWASANAETH FY MIL DŴR CYMRU, RYDYCH YN CYTUNO I DDERBYN Y TELERAU AC AMODAU CANLYNOL:**

1. Darperir Gwasanaeth Fy Mil gan Dŵr Cymru Cyfyngedig, sy'n masnachu fel Dŵr Cymru Welsh Water, y mae ei swyddfa gofrestredig yn Linea, Heol Fortran, Llaneirwg, Caerdydd, CF3 0LT (Rhif y Cwmni 2366777), gyda chymorth gan Opus Trust Marketing Limited, sy'n masnachu fel Opus Trust Communications, y mae ei swyddfa gofrestredig yn 133-137 Scudamore Rd, Leicester, LE3 1UQ, fel un o bartneriaid Dŵr Cymru yr ymddiriedir ynddo.

2. Wrth gofrestru ar gyfer Gwasanaeth Fy Mil, a gynhelir gan Opus Trust Communications, byddwch yn darparu gwybodaeth bersonol i Dŵr Cymru ac Opus Trust Communications a fydd yn casglu eich gwybodaeth bersonol ac yn cysylltu â chi ar ein rhan er mwyn darparu Gwasanaeth Fy Mil i chi.

3. Mae Opus Trust Communications yn casglu amrywiaeth o ddata er mwyn galluogi'r broses gofrestru ar gyfer Gwasanaeth Fy Mil. Mae hyn yn cynnwys cyfeirnod eich rhif cwsmer, cod post yr eiddo a gaiff ei filio a rhif ffôn. Rydym hefyd yn gwirio data a roddir gennych yn erbyn data rydych wedi'u rhoi i Dŵr Cymru (gan gynnwys eich enw, cyfeiriad e-bost a dyddiad geni (ar gyfer cwsmeriaid preswyl) neu enw'r cwmni a theitl eich swydd (ar gyfer cwsmeriaid dibreswyl). Ar gyfer defnydd parhaus o safle, mae Opus Trust Communications hefyd yn casglu eich cyfrinair, dewis iaith a dewisiadau o ran hysbysiadau, eich cyfeiriad IP, rhif adnabod sesiwn, a chofnod digwyddiadau.

4. Mae Opus Trust Communications yn storio'r data hyn ar gronfeydd data ac nid yw'n eu cadw am fwy o amser nag sy'n angenrheidiol: ar gyfer gwybodaeth ddarfodol (rhif adnabod sesiwn), cedwir y rhain am 48 awr; caiff yr holl ddata eraill eu cadw cyhyd ag y bydd y biliau ar eich cyfrif; a chedwir y log digwyddiadau i wirio pa ddefnyddwyr sydd wedi defnyddio pa ddogfennau.

5. Efallai y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth bersonol a ddarparwch i ni neu Opus Trust Communications i gysylltu â chi – mae hyn yn cynnwys Opus Trust yn cysylltu â chi ar ein rhan, mewn perthynas â'ch cyfrif a'r gwasanaethau a ddarparwn i chi.

6. Am ragor o wybodaeth ynglŷn â sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol, gweler ein Polisi Preifatrwydd sydd ar gael ar ein gwefan yn y ddolen ganlynol: https://www.dwrcymru.com/en/Company-Information/Data-Protection.aspx.

7. Drwy gofrestru ar gyfer Gwasanaeth Fy Mil, rydych yn derbyn na fyddwch yn cael bil papur mwyach.

8. Unwaith y byddwch wedi gwneud cais am wasanaeth Fy Mil, bydd e-bost (a neges destun os ydych wedi dewis derbyn hysbysiadau testun) yn cael ei anfon atoch ar gyfer y cyfrif hwn pan fydd eich bil yn barod.

9. Dim ond un cyfeiriad e-bost y gellir ei ddefnyddio i gofrestru un cyfrif cwsmer.

10. Mae'n rhaid bod gennych gyfrif e-bost dilys er mwyn gallu defnyddio Gwasanaeth Fy Mil. Eich cyfrifoldeb chi yn llwyr yw cywirdeb y cyfeiriad e-bost hwnnw. Os daw eich cyfrif e-bost yn annilys neu os hoffech i ni anfon e-byst atoch at gyfeiriad e-bost gwahanol, eich cyfrifoldeb chi yw newid eich cyfeiriad e-bost drwy eich cyfrif Fy Mil. Byddwch yn parhau i fod yn llwyr gyfrifol am unrhyw filiau yr anfonwyd hysbysiadau amdanynt at eich cyfeiriad e-bost blaenorol.

11. Eich cyfrifoldeb chi yw cadw cyfrinair eich cyfrif Fy Mil yn ddiogel ac i roi gwybod i ni ar unwaith os credwch y gallai ei fod wedi cael ei gamddefnyddio. Chi hefyd sy'n gyfrifol am ddiogelwch eich cyfrifiadur ac unrhyw ddelweddau bil rydych yn dewis eu lawrlwytho arno.

12. Eich cyfrifoldeb chi yn llwyr yw cywirdeb eich rhif ffôn. Os daw eich rhif ffôn yn annilys neu os byddwch am i ni anfon hysbysiadau testun yn ymwneud â'ch bil at rif ffôn gwahanol, eich cyfrifoldeb chi yw newid eich rhif ffôn drwy eich cyfrif Fy Mil. Byddwch yn parhau yn llwyr gyfrifol am unrhyw filiau yr anfonwyd hysbysiadau amdanynt at eich rhif ffôn blaenorol.

13. Ceidw Dŵr Cymru yr hawl i wrthod gadael i unrhyw un ddefnyddio Gwasanaeth Fy Mil am unrhyw reswm yn ôl ei ddisgresiwn.

14. Ceidw Dŵr Cymru yr hawl i addasu neu ddiddymu (yn barhaol neu dros dro) Gwasanaeth Fy Mil i chi neu bawb sy'n ei dderbyn yn ôl ei ddisgresiwn.

15. Mae unrhyw gyfarwyddiadau rydych yn eu rhoi i Dŵr Cymru neu Opus Trust Communications mewn perthynas â newidiadau i'ch manylion (fel diwygio manylion eich cyfrif) yn amodol ar gael eu derbyn gennym ni ac ni ddylid tybio eu bod wedi eu derbyn nes y cewch gadarnhad drwy e-bost.

16. Mae pob bil yr anfonir hysbysiad i chi yn ei gylch drwy e-bost neu neges destun (os ydych wedi dewis cael hysbysiadau drwy neges destun) yn daladwy i Dŵr Cymru ar y dyddiad "yn daladwy erbyn" a nodir ar bob bil. Byddwch yn parhau yn llwyr gyfrifol am unrhyw filiau yr anfonwyd hysbysiadau amdanynt at y cyfeiriad e-bost neu'r rhif ffôn symudol rydych wedi'i nodi p'un a ydych yn agor y cyfrif hwnnw ac yn darllen yr e-bost perthnasol ai peidio, wedi eich datgysylltu o'ch cyfrif e-bost neu rif ffôn symudol am ba bynnag reswm neu'n methu â darllen yr hysbysiad perthnasol.

17. Os na fyddwch yn talu eich biliau ar amser, gall Dŵr Cymru anfon negeseuon atgoffa a chyflwyno camau cyfreithiol. Caiff yr holl negeseuon atgoffa a gohebiaeth arall eu hanfon drwy'r post at y cyfeiriad sy'n gysylltiedig â'ch cyfrif.

18. Gellir talu biliau i Dŵr Cymru drwy unrhyw un o'r dulliau canlynol:– taliadau ar-lein gyda cherdyn debyd neu gerdyn credyd neu drwy ein llinell dalu awtomataidd ar 0800 028 5209, Debyd Uniongyrchol, cerdyn talu, bancio ar-lein, neu daliadau uniongyrchol drwy ein cynllun Dŵr Uniongyrchol.

19. Os hoffech ganslo eich Gwasanaeth Fy Mil, rhaid i chi roi gwybod i ni ar unwaith drwy eich cyfrif Fy Mil neu'r adran "Mae gennyf gwestiwn". Fel arall, gallwch ein ffonio ar 0800 052 0145. Byddwn yn canslo eich Gwasanaeth Fy Mil o fewn 10 diwrnod gwaith i hysbysiad o'r fath ac ar ôl y dyddiad hwnnw, ni anfonir unrhyw hysbysiad pellach ar gyfer unrhyw filiau atoch drwy e-bost. Fodd bynnag, byddwch yn parhau yn llwyr gyfrifol am daliad llawn, i Dŵr Cymru, am unrhyw filiau yr anfonwyd hysbysiad atoch yn eu cylch ar neu cyn y dyddiad y cafodd eich cyfrif Fy Mil ei ganslo.

20. Ni all Dŵr Cymru ac Opus Trust Communications warantu mynediad di-dor a/neu ddibynadwy at Wasanaeth Fy Mil ac nid yw'n rhoi unrhyw warant o gwbl o ran ei weithrediad, argaeledd, swyddogaeth, nac y bydd yna ddim gwallau nag amharu.

21. Rydych yn cytuno i ddefnyddio Gwasanaeth Fy Mil yn gyfrifol ac yn gyfreithlon. Yn benodol, byddwch yn sicrhau bod yr holl wybodaeth rydych yn ei rhoi i ni yn gywir ac y byddwch yn rhoi gwybod i ni os bydd angen ei diweddaru ar unrhyw adeg.

22. Mae'r holl ddeunyddiau (yn cynnwys, heb gyfyngiad, pob dyluniad, testun, graffeg a'u dewis a'u trefniant) sy'n ymwneud â Gwasanaeth Fy Mil yn hawlfraint Dŵr Cymru. Ni chaniateir copïo nac atgynhyrchu deunydd o'r fath mewn unrhyw ffurf o gwbl, boed yn ffisegol, yn electronig neu fel arall, heb ein caniatâd ysgrifenedig penodol ni ymlaen llaw.

23. Ceidw Dŵr Cymru yr hawl i addasu'r telerau ac amodau hyn o bryd i'w gilydd. Byddwn yn sicrhau bod y fersiwn ddiweddaraf o'n telerau ar gael i chi ei darllen ar bob adeg drwy eich cyfrif Fy Mil. Tybir y byddwch, wrth ddefnyddio Gwasanaeth Fy Mil ac yn cael mynediad at filiau electronig, yn derbyn y telerau hyn fel y'i diwygiwyd.

24. Ni fydd Dŵr Cymru yn atebol am unrhyw daliadau a ddaw'n daladwy gennych chi os bydd y taliad ar gyfer eich bil i Dŵr Cymru yn achosi i'ch cyfrif banc fynd i orddrafft.

25. Os bydd unrhyw un o ddarpariaethau'r telerau ac amodau hyn yn anghyfreithlon, yn ddi-rym, neu'n anorfodadwy am unrhyw reswm, yna tybir fod y ddarpariaeth honno'n doradwy ac ni fydd yn effeithio ar ddilysrwydd na natur orfodadwy'r darpariaethau sy'n weddill.

26. Caiff y telerau ac amodau hyn eu rheoli a'u dehongli yn unol â chyfreithiau Cymru a Lloegr, fel y'u cymhwyswyd yng Nghymru a byddant yn ddarostyngedig i awdurdodaeth lwyr Llysoedd Cymru a Lloegr.

27. Nid oes unrhyw ddarpariaethau yn y telerau a'r amodau hyn yn effeithio ar eich hawliau statudol fel defnyddiwr.

28. Darperir Gwasanaeth Fy Mil yn rhad ac am ddim.